**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-LG-1447-15

Christine Chapman AC
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth
Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Rhagfyr 2015

Annwyl Christine

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd 2015 ynghylch ail gam eich Ymchwiliad i Dlodi ar ddulliau cymunedol o drechu tlodi.

Nid wyf wedi gallu rhoi ymatebion manwl i bob cwestiwn o fewn y cyfyngiadau amser. Fodd bynnag, byddaf yn darparu tystiolaeth fwy manwl ar ddull cymunedol Llywodraeth Cymru o drechu tlodi yn fy ymateb ysgrifenedig ffurfiol i'r elfen hon o'ch Ymchwiliad a thrwy fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 27 Ionawr.

**Cwestiwn 1**

Credaf fod angen dulliau seiliedig ar le a dulliau nad ydynt yn seiliedig ar le ar gyfer trechu tlodi, sydd wedi'i adlewyrchu yn yr ystod o raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod wastad cyfle i gryfhau a gwella ein dull gweithredu.

Rwyf wrthi'n adolygu prif raglenni trechu tlodi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, sy'n cynnwys dulliau seiliedig ar le a dulliau nad ydynt yn seiliedig ar le. Cwblheais waith yn ddiweddar i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod y rhaglenni trechu tlodi - Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Cefnogi Pobl - yn fwy cyson â'i gilydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Cwestiwn 2**

Mae Llywodraeth Cymru’n cymryd camau sylweddol i wella tai ac i adfywio cymunedau lleol. Mae canlyniadau pobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel o ran iechyd, addysg a chyflogaeth yn debygol o fod yn is, ac felly mae'r rhain yn ystyriaethau canolog ar gyfer pob rhaglen trechu tlodi.

Nid wyf yn derbyn bod dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau tlodi yn ddull seiliedig ar le yn bennaf. Mae dulliau cymunedol yn rhan bwysig o amryw o bolisïau a rhaglenni, gan gynnwys y rheini sydd ar gael i bobl o bob rhan o Gymru waeth lle maent yn byw, fel Teuluoedd yn Gyntaf, Cefnogi Pobl a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae dull cymunedol o drechu tlodi yn rhan o'n huchelgeisiau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). Un o'r saith nod lles yw 'Cymru o gymunedau cydlynus' a gall dulliau cymunedol (ymhlith dulliau eraill) gyfrannu at gyflawni'r nodau eraill hefyd.

Mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y pŵer i gynnal adolygiadau o'r modd y mae corff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor ei weithgarwch o dan eu dyletswyddau lles. Byddant yn gallu adolygu'r camau a gymerir gan gorff cyhoeddus i gyflawni ei amcanion lles, i ba raddau y mae'n cyflawni ei amcanion ac a yw wedi pennu amcanion lles neu weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mater i'r Comisiynydd newydd fydd penderfynu sut bydd yn arfer ei dyletswyddau a'i phwerau newydd.

Mae'r dangosyddion drafft sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) yn cynnwys dau fesur yn ymwneud â thlodi. Y mesur cyntaf yw canran yr aelwydydd mewn tlodi incwm cymharol, a fesurwyd ar wahân ar gyfer plant, phobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn. Rydym hefyd wedi cydnabod bod tlodi'n fater amlhaen, ac felly rydym yn cynnig ail ddangosydd ar amddifadedd sylweddol. Mae hyn yn mesur a yw aelwydydd yn gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau angenrheidiol drwy gyfres o gwestiynau ar yr Arolwg Cenedlaethol. Bydd data arall yn parhau i gael eu monitro er mwyn i ni allu deall sut rydym yn mynd i'r afael â mathau gwahanol o dlodi, gan gynnwys tlodi mewn gwaith, tlodi tanwydd a thlodi bwyd.

**Cwestiwn 3**

Roedd y gwerthusiad o effaith Dechrau'n Deg yn awgrymu y gallai'r canlyniadau ar gyfer teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg fod ar yr un lefel â'r canlyniadau ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd llai difreintiedig erbyn hyn. Canfuwyd hefyd o ddata gwerthuso ansoddol dystiolaeth o bob un o ganlyniadau uniongyrchol disgwyliedig y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys sgiliau iaith plant a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Daeth ymchwilwyr i'r casgliad bod rhaglen Dechrau'n Deg wedi newid bywydau rhai teuluoedd ag anghenion mawr.

Yn yr un modd â nifer o raglenni ymyrraeth gynnar, efallai na fydd rhai o ganlyniadau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn cael eu gwireddu am sawl blwyddyn. Mewn adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar, tynnwyd sylw at y gost gyllidol o golli cyfleoedd i ddarparu cymorth cynnar wedi'i dargedu i blant a phobl ifanc. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai ymyrraeth gynnar yw'r dewis doeth a realistig ar gyfer defnyddio arian cyhoeddus sy'n prinhau. Mae'r gweithgarwch gwerthuso presennol yn cynnwys datblygu dull o olrhain canlyniadau plant Dechrau'n Deg wrth iddynt symud i mewn i addysg a thrwy addysg. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro ystod o ganlyniadau iechyd gan gynnwys nifer y plant sy'n cael eu himiwneiddio, pwysau iach ymhlith plant a datblygiad plant.

**Cwestiwn 4**

Mae'n flin gennyf os oedd unrhyw amwysedd yn fy ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Cafodd y Gyllideb Cefnogi Pobl ei leihau £9.9 miliwn yn 2015/16.

Hyd yn hyn, rydym wedi gwarchod Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl cyn belled ag y bo modd yn sgil toriadau olynol i'n cyllideb. Fodd bynnag, mae toriadau cronnus gan Lywodraeth y DU, ynghyd â mwy o alw a phwysau, yn golygu ein bod wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd yng nghyllideb 2015/16 i leihau'r cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl. Rydym wedi cynnal y gyllideb o £124 miliwn ar gyfer y rhaglen yn 2016/17.

**Cwestiwn 5**

Rwy'n defnyddio Adroddiad Blynyddol y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi i adnewyddu'n gyson ein dull gweithredu ar gyfer lleihau tlodi yng Nghymru. Rwy'n llwyr gydnabod nodweddion newidiol tlodi. Dyma pam ein bod, er enghraifft, wedi cynnwys camau yn Adroddiad Blynyddol 2014 i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith am ei fod yn broblem sylweddol a chynyddol. Ar ôl ymgynghori â phartneriaid a chyhoeddi'r Strategaeth Tlodi Plant ym mis Mawrth, roedd Adroddiad Blynyddol 2015 y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn adlewyrchu blaenoriaethau newydd ac yn cynnwys ymrwymiadau newydd mewn meysydd fel tlodi bwyd a gofal plant.

**Cwestiwn 6**

Mae'r ymrwymiad yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi i gefnogi 5,000 o fenywod yn gysylltiedig â chamau gweithredu o dan y thema benodol cydraddoldeb rhywiol yn rhaglenni ESF 2014-20. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cymeradwyo un prosiect hyd yn hyn a fydd yn cyfrannu'n benodol at gyrraedd y targed hwn, sef Agile Nation 2 a arweinir gan Chwarae Teg. Bydd y rhaglen hon, ynghyd â'r rhaglenni eraill a fydd yn cael eu cymeradwyo maes o law, yn helpu i gyrraedd y targed.

Bydd rhaglenni ehangach eraill hefyd yn helpu i wella sefyllfa menywod yn y farchnad lafur, hyd yn oed os nad hyn yw prif ffocws y prosiect. Mae disgwyl i fwy na 90,000 o fenywod elwa ar brosiectau hyfforddiant ar gyfer pobl gyflogedig, gan gynnwys prentisiaethau a gefnogir gan yr ESF, o dan raglenni ESF 2014-20. Bydd yr holl raglenni sgiliau a chyflogaeth a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu at hyn, gan gynnwys Cymunedau am Waith a'r Rhaglen Hyfforddeiaethau.

Ym mis Hydref, cynhaliais gynhadledd Trechu Tlodi a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Roedd yn ddigwyddiad cadarnhaol iawn sydd wedi arwain at gysylltiadau cryfach â sefydliadau ac unigolion yn y sector preifat. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried ffyrdd y gallwn gydweithio wrth symud ymlaen, a chynhaliwyd cynhadledd arall ar 6 Ionawr eleni i gynnal y momentwm.

Byddaf yn rhoi mwy o fanylion am rai agweddau yn fy ymateb ysgrifenedig ffurfiol i'r Pwyllgor.



**Lesley Griffiths AC**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi